

**Cynnig i ganiatáu cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes mewn sefydliadau bwyd**

**Tudalen grynodedb yr ymgynghoriad**

<b>Dyddiad lansio:</b>	27/03/2018	<b>Dyddiad cau:</b>	30/05/2018
------------------------	------------	---------------------	------------

**Pwy fydd â diddordeb yn yr ymgynghoriad hwn?**

Diwydiant Bwyd Anifeiliaid Anwes / Awdurdodau Lleol / Gweithredwyr Busnesau Bwyd.

**Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?**

Cynnig i ganiatáu, o dan feini prawf gwahanu penodol llym, i fwyd anifeiliaid anwes gael ei gynhyrchu'n fasnachol o sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn busnesau sydd hefyd yn cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl.

**Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?**

I geisio barn ar y cynnig i ganiatáu i fwyd anifeiliaid anwes gael ei gynhyrchu'n fasnachol mewn busnesau sydd hefyd yn cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl o dan rai amodau, gan gynnwys bodloni meini prawf gwahanu llym.

**Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:**

Uned Gefnogi Gorfforaethol  
Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)  
Ffôn: 0207 276 8083  
E-bost: [csulondontransactions@food.gov.uk](mailto:csulondontransactions@food.gov.uk)

Asiantaeth Safonau Bwyd  
Llawr 7  
Clive House  
70 Petty France  
Llundain  
SW1H 9EX

**A oes Aseiad  
Effaith ynghlwm?**

Oes

Na

Ni fyddwn yn darparu Aseiad Effaith ar hyn o bryd ond yn ceisio barn y diwydiant trwy'r ymarfer ymgynghori

## Cynnig i gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes mewn sefydliadau bwyd

### Manylion yr ymgynghoriad

#### Cyflwyniad

Mae'r cryn dipyn o sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n cael eu cynhyrchu mewn sefydliadau cig a phrosesu bwyd hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, neu nwyddau tebyg megis *treats* anifeiliaid anwes. Mae galw defnyddwyr am y cynhyrchion hyn hefyd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r diwydiant bwyd a bwyd anifeiliaid anwes wedi dangos diddordeb mewn cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes yn yr un sefydliad lle mae bwyd yn cael ei brosesu. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi ystyried y cynigion hyn ac yn credu y gellir gwneud hyn yn ddiogel ac yn unol â'r ddeddfwriaeth, ar yr amod bod darpariaethau penodol yn cael eu bodloni.

Os bydd busnesau sy'n cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes o sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn fasnachol hefyd yn cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl, rhaid gwneud hyn bob amser o dan amodau gwahanu llym er mwyn dileu'r risg o groeshalogi â bwyd a fwriedir i'w fwyta gan bobl. Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r graddau gwahanu arfaethedig, mewn modd cymesur ac yn seiliedig ar risg, gan ddibynnu ar natur y bwyd anifeiliaid anwes sy'n cael ei gynhyrchu a tharddiad y deunyddiau crai sy'n cael eu defnyddio.

#### Ystyriaethau cyfreithiol

Mae atodiad IV o Reoliad (CE) Rhif 142/2011, sy'n cynnwys mesurau gweithredu ar gyfer Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn rhagnodi amodau gwahanu llym, wedi'u cynllunio ar gyfer ffatrioedd prosesu sydd wedi'u lleoli ar yr un safle â lladd-dai neu sefydliadau eraill a gymeradwywyd neu a gofrestrwyd o dan Reoliadau (CE) 852/2004 a 853/2004 yn y drefn honno.

Barn yr ASB felly yw bod cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes yn fasnachol o sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn busnesau sydd hefyd yn cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl yn cael ei ganiatáu, cyn belled â bod amodau gwahanu cadarn yn eu lle i osgoi'r perygl o groeshalogi ac i sicrhau nad yw'r gadwyn fwyd dynol yn cael ei chyfaddawdu. Cynhaliwyd trafodaethau ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban, sydd hefyd yn ymgynghori ar gynigion i ganiatáu'r gweithgaredd hwn.

#### Cynnig allweddol

- **Caniatáu i fwyd anifeiliaid anwes gael ei gynhyrchu'n fasnachol o sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn busnesau sydd hefyd yn cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl o dan rai amodau ac ar yr amod bod meini prawf gwahanu llym yn cael eu bodloni.**

## Cyfrifoldeb cymeradwyo a gorfodi

Rhaid i unrhyw sefydliad sydd eisoes yn gweithredu fel busnes bwyd ac sydd wedi'i gymeradwyo gan yr ASB neu sydd wedi cofrestru â'r ASB neu'r Awdurdod Lleol i gynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl sydd hefyd yn dymuno cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, roi gwybod i'w awdurdod cymwys cyn dechrau gweithredu.

Bydd angen diwygio ac ailasesu'r system rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar HACCP ar gyfer newid o'r fath, fel y nodir yn Erthygl 6 Rheoliad (CE) 852/2004, ac asesiad o'r gweithrediadau arfaethedig.

Rhaid i'r gweithredwr gael cymeradwyaeth gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) fel safle bwyd anifeiliaid anwes sgil-gynhyrchion anifeiliaid, er y byddai angen mewnbwn gan APHA a'r ASB i'r broses gymeradwyo. Cyfrifoldeb APHA fydd archwilio a gorfodi'r ardal fwyd anifeiliaid anwes yn seiliedig ar risg. Bydd staff yr ASB ac APHA yn cydlynw lle bo cyfrifoldebau'n gorgyffwrdd, er mwyn sicrhau nad yw ardaloedd cynhyrchu bwyd mewn perygl o gael ei halogi gan sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Bydd cymeradwyo sefydliadau busnes bwyd i gyflawni gweithrediadau ychwanegol mewn perthynas â chynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes yn seiliedig ar y meini prawf canlynol y mae'n rhaid eu bodloni yn seiliedig ar y senarios isod.

### **1: Cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes mewn sefydliadau bwyd cymeradwy**

Rhaid bodloni'r amodau canlynol ar gyfer cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes wedi'i brosesu, neu ar gyfer cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes amrwd o sgil-gynhyrchion anifeiliaid nad ydynt wedi'u cynhyrchu fel rhan o weithrediad arferol y busnes, mewn busnesau yn yr un lle:

- Rhaid i'r ardal gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes fod ar wahân i'r lladd-dy neu sefydliad arall yn gorfforol. Gellir gwahanu'n gorfforol trwy ei leoli mewn adeilad sydd wedi'i wahanu'n gyfan gwbl o'r lladd-dy neu sefydliad arall neu, os yw'n cael ei farnu'n ddigonol, mewn ardal ar wahân o'r un adeilad, er enghraifft, gyda waliau rhannu i'r llawr i nenfwd.
- Bydd gan yr ardal gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes fynediad staff, cyfleusterau newid, baeau llwythi/dadlwytho, offer a chyfleusterau ar wahân i'r rheiny yn yr ardal prosesu bwyd.
- Rhaid trosglwyddo deunydd crai o'r safle prosesu bwyd i'r ardal gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes heb gyfaddawdu diogelwch bwyd (ee defnyddio llinellau cludiant, neu gynwysyddion y gellir eu cau nad ydynt yn gollwng).
- Dylai'r ardal gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes gael ei wneud o ddeunyddiau a chynnwys offer sy'n hawdd eu glanhau, gael cyfleusterau golchi dwylo ag offer pwrpasol a, lle bo angen, cyfleusterau storio addas gyda thymheredd wedi'i reoli. Rhaid defnyddio'r cyfleusterau hyn ar gyfer cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes yn unig.
- Rhaid i weithredwyr sy'n gweithio yn yr ardal cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes ddefnyddio dillad diogelwch penodol. Rhaid i'r gweithredwyr hyn fod yn dîm pwrpasol sy'n gweithio yn yr ardal cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes yn unig ar gyfer sifft llawn.
- Dylai fod ardaloedd dynodedig ar gyfer derbyn a dosbarthu cynhyrchion a chynhwysion bwyd anifeiliaid anwes. Rhaid i unrhyw gynhwysion ychwanegol, i'w defnyddio'n unig wrth weithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, fel cyflasynnau cig neu ychwanegion, fynd i mewn i'r ystafell fwyd anifeiliaid anwes drwy'r baeau dynodedig. Rhaid i gynhyrchion bwyd anifeiliaid anwes

adael trwy'r baeau dynodedig a ni ddylent ddod i mewn i ardaloedd cynhyrchu, paratoi neu storio bwyd.

- Ni ddylai pobl nac anifeiliaid heb awdurdod gael mynediad i'r ardal gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes.
- Rhaid i'r gweithredwr sefydlu System Rheoli Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP) i nodi a rheoli pwyntiau rheoli critigol yn y broses hon; monitro, gwirio a chofnodi'r canlyniadau; a sefydlu system olrhain ar gyfer pob llwyth sy'n cael ei anfon.

## 2: Cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes amrwd o sgil-gynhyrchion anifeiliaid a gynhyrchir ar y safle

Gall bwyd anifeiliaid anwes amrwd a gynhyrchir o sgil-gynhyrchion anifeiliaid a gynhyrchir gan y busnes bwyd fod yn destun mesurau gwahanu llai nag a ddisgrifiwyd uchod, ar yr amod nad yw hyn yn lleihau'r gwahanu presennol rhwng gweithgareddau cynhyrchu bwyd a gweithgareddau trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid y busnes. Mae'r prosesau a ganiateir o dan y senario hwn yn cynnwys, er enghraifft (nid yn unig): briwio (*mincing*), torri, cymysgu, rhewi, ac ati.

Dylai busnesau sy'n cynhyrchu sgil-gynhyrchion anifeiliaid fel rhan o'u harferion presennol fod â mesurau addas ar waith i gael gwared ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid o ardaloedd cynhyrchu bwyd, i ardaloedd sy'n trin a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Gellir ystyried y broses cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes amrwd o'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid hyn i fod yn rhan o arferion trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid y busnes, a dylent ddefnyddio mesurau diogelu presennol sy'n atal sgil-gynhyrchion anifeiliaid rhag halogi'r gadwyn fwyd.

Rhaid arsylwi'r safonau canlynol:

- Dylai'r ardal gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes gael ei wneud o ddeunyddiau a chynnwys offer sy'n hawdd eu glanhau, gael cyfleusterau golchi dwylo ag offer pwrpasol a, lle bo angen, cyfleusterau storio addas gyda thymheredd wedi'i reoli. Rhaid defnyddio'r cyfleusterau hyn ar gyfer cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes yn unig. Rhaid sicrhau bod bwyd anifeiliaid wedi'i storio mewn man gwahanol i fwyd, mewn oergell neu rewgell ar wahân.
- Rhaid i weithredwyr sy'n gweithio yn yr ardal cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes ddefnyddio dillad diogelwch penodol. Rhaid i'r gweithredwyr hyn fod yn dîm pwrpasol sy'n gweithio yn yr ardal cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes yn unig ar gyfer sifft llawn.

- Ni chaniateir dod ag unrhyw gynhwysion ychwanegol o darddiad anifeiliaid i'r safle er mwyn cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes. Ni ddylai unrhyw gynhyrchion sy'n dod o gynhwysion nad ydynt yn dod o anifeiliaid sy'n dod i mewn at y diben hwn gyflwyno risgiau ychwanegol i'r broses o gynhyrchu bwyd.
- Ni ddylai pobl nac anifeiliaid heb awdurdod gael mynediad i'r ardal cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes.
- Rhaid i'r gweithredwr sefydlu system reoli sy'n seiliedig ar HACCP i nodi a rheoli pwyntiau rheoli critigol yn y broses hon; monitro, gwirio a chofnodi'r canlyniadau; a sefydlu system olrhain ar gyfer pob llwyth sy'n cael ei anfon.

### **3: Cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes o gynhwysion ac mewn modd sy'n addas i'w fwyta gan bobl**

Dylai fod yn bosibl cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes o ddeunydd sy'n addas i'w fwyta gan bobl yn unig, gan ddefnyddio'r un offer, ar yr amod bod y deunydd hwn yn cael ei drin fel bwyd i'w fwyta gan bobl hyd at y pwynt pecynnu a storio, hynny yw unwaith y caiff y cynnyrch ei becynnu fel bwyd anifeiliaid anwes, bydd angen ei drin a'i storio ar wahân a'i labelu fel bwyd anifeiliaid anwes. Byddai'n rhaid i fusnes o'r fath gydymffurfio â'r gofynion a nodir isod.

- Rhaid cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes ar amser neu ddyddiad gwahanol i gynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl.
- Rhaid ystyried a thrin yr holl ddeunyddiau crai a ddefnyddir fel rhai sy'n addas i'w bwyta gan bobl ar gyfer y broses gyfan.
- Dim ond deunydd a ddefnyddir fel arfer yn yr adeiladau gweithgynhyrchu bwyd dynol y gellir ei ddefnyddio. Rhaid rhestru'r deunyddiau crai a dderbynnir.
- Rhaid trin a phrosesu'r cynhwysion yn y fath fodd er mwyn iddynt barhau i fod yn addas i'w bwyta gan bobl hyd nes y bydd y bwyd yn cael ei becynnu fel bwyd anifeiliaid anwes. Ni fyddai prosesau fel briwio cig â'r asgwrn, nad ydynt yn cael eu gwneud wrth gynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl, yn addas ar gyfer protocol yr ardal a rennir yn yr adran hon (gweler yr adran flaenorol).
- Unwaith y caiff deunydd ei becynnu fel bwyd anifeiliaid anwes, rhaid ei gadw ar wahân i fwyd i'w fwyta gan bobl ac mewn rhewgelloedd/oergelloedd ar

wahân. Ar ôl cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes rhaid glanhau a diheintio'r ardal a'r cyfarpar, yn unol ag egwyddorion HACCP a/neu trefniadau gweithredu safonol. Rhaid i'r gweithredwr sefydlu system rheoli diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n seiliedig ar HACCP i nodi a rheoli pwyntiau rheoli critigol; monitro, gwirio a chofnodi'r canlyniadau; a sefydlu system olrhain ar gyfer pob llwyth a anfonir.

- Bydd unrhyw gyfaddawdu ar y gwahanu rhwng y gwahanol ardaloedd ar gyfer bwyd a chynhyrchu bwyd anifeiliaid (sgil-gynhyrchion anifeiliaid) yn golygu y bydd angen stopio yn syth a glanhau'r ardaloedd o dan sylw yn drylwyr, boed mewn ardaloedd bwyd neu ardaloedd cynhyrchu bwyd anifeiliaid (neu'r ddau), cyn y gall y gweithrediadau ddechrau eto. Rhaid cynnal ymchwiliad i achos digwyddiad o'r fath.

### Effaith ar Fusnes a'r Awdurdod Cymwys

Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori hwn, byddem yn croesawu sylwadau mewn perthynas ag unrhyw gost neu fuddion sylweddol rydych chi'n rhagweld a fydd yn deillio o'r cynnig (p'un a ellir rhoi'r rhain mewn termau ariannol neu dermau anariannol). Yn arbennig:

- Arbedion ar waredu cynnyrch a fyddai fel arall yn wastraff bwyd neu gostau cludo ar gyfer cynhyrchion a anfonir at ffatrioedd gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes,
- Mynediad at farchnadoedd newydd a gwerth y rhain,
- Y sector bwyd rydych chi'n rhan ohono a'r math o fwyd anifeiliaid anwes rydych yn bwriadu ei gynhyrchu.

### Ymatebion

1. **Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 30/05/2018.** Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).
2. **I gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ewch ati i lenwi'r holiadur ymgynghori a ddarparwyd trwy Surkey Monkey sydd ar gael yma:**

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/MSR26XD>

Neu, os ydych chi'n dymuno ymateb i'r ymgynghoriad trwy e-bost neu'n ysgrifenedig, anfonwch yr ymatebion at:

**Uned Gefnogi Gorfforaethol  
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd  
Llawr 7, Clive House  
70 Petty France  
Llundain  
SW1H 9EX**

**E-bost:** [csulondontransactions@food.gov.uk](mailto:csulondontransactions@food.gov.uk)

Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir

Henna Safdar  
Polisi Hylendid Cig  
Asiantaeth Safonau Bwyd  
Llawr 7  
Clive House  
70 Petty France  
Llundain SW1H 9EX

#### **Atodiadau**

**Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad**

**Atodiad B: Rhestr o bawb sydd â diddordeb *gweler ynghlwm***



## Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Cyhoeddi data personol a chyfrinachedd ymatebion

1. Yn unol ag egwyddor yr ASB o fod yn agored, byddwn yn cadw copi o'r ymgynghoriad terfynol a'r ymatebion, a fydd ar gael i'r cyhoedd drwy gais i [Gydlynnydd Ymgynghori'r ASB](http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/dataprotection.doc) (020 7276 8308). Bydd yr ASB yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion, a allai gynnwys eich enw llawn. Dim ond yn sgil cais i weld yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad y byddwn yn rhyddhau unrhyw ddata personol arall. Os nad ydych am i'r wybodaeth hon gael ei rhyddhau, dylech lenwi a dychwelyd y Ffurflen Cyhoeddi Data Personol, sydd ar gael ar y wefan drwy <http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/dataprotection.doc>. Nid yw llenwi'r ffurflen hon yn golygu y byddwn yn trin eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyfrinachol, dim ond eich data personol.
3. Yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, dylech nodi ei bod yn bosibl y bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn eich ymateb yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu. Os ydych o'r farn na ddylid datgelu peth o'r wybodaeth a ddarparwyd yn eich ymateb, dylech nodi'r wybodaeth dan sylw, gofyn am beidio â'i datgelu ac egluro pa niwed posibl a all ddeillio o'i datgelu yn eich barn chi. Yr ASB fydd yn penderfynu'n derfynol a ddylid dal yr wybodaeth yn ôl. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried eich barn wrth wneud y penderfyniad hwn.
4. Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn gais o'r fath oni bai eich bod yn cynnwys cais penodol, ynghyd ag eglurhad, ym mhrif destun eich ymateb.
5. Mae rhestr o bawb sydd â diddordeb ac sy'n cael copi o'r llythyr hwn i'w gweld yn Atodiad B. Mae croeso i chi anfon y ddogfen hon ymlaen at unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y pwnc, neu anfon eu manylion llawn atom er mwyn i ni drefnu bod copi'n cael ei anfon yn uniongyrchol atynt.
6. Cysylltwch â ni os oes angen yr ymgynghoriad hwn mewn fformat arall megis Braille neu brint bras.

**Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth EM<sup>1</sup>.**

---

<sup>1</sup> <http://www.bis.gov.uk/policies/bre/consultation-guidance>

**Atodiad B: Rhestr o bawb sydd â diddordeb**

- **Pob Sefydliad Cig Cymeradwy (Coch a Gwyn)**

**Diwydiant - Cyn aelodau CFMC. NFMFT, AIMS, BPC, PFMA, HCCMPW, NIMEA,**

- **Pob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig**